

Tasg 2

Golau glas disglair

Tasg greadigol

Edrychwch ar y fideo / lluniau.

Naill ai:

Ysgrifennwch ddarn o farddoniaeth neu ddarn o ryddiaith, gan ddychmygu mai chi yw'r person sy'n gwneud i'r plancton oleuo. Felly bydd y darn **yn y person cyntaf**.

- Mae'r plancton yn goleuo pan fydd hi'n noson gynnes o haf, felly bydd angen cyfeirio at hyn.
- Bydd angen sôn am eich synhwyrau, wrth gwrs!
- Ydy'r golau 'fel' rhywbeth, neu 'yn' rhywbeth? (Hynny yw, defnyddiwch gymariaethau a throsiadau.)
- Beth rydych chi'n ei wneud er mwyn gwneud i'r plancton oleuo?
- Pa effaith mae'r profiad yn ei chael arnoch chi? Ydy'r profiad yn 'goleuo' rhywbeth ynoch chi?
- Allwch chi gymharu'r profiad â phrofiad arall?

Neu:

Ysgrifennwch ddarn o farddoniaeth neu ddarn o ryddiaith **yn y trydydd person** sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd wrth i'r plancton oleuo.

- Mae'r plancton yn goleuo pan fydd hi'n noson gynnes o haf, felly bydd angen cyfeirio at hyn.
- Bydd angen sôn am sŵn y dŵr, disgrifio sut mae'n symud, a manylu ar y golau.
- Ydy'r golau 'fel' rhywbeth, neu 'yn' rhywbeth? (Hynny yw, defnyddiwch gymariaethau a throsiadau.)